Cymwysterau Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Diweddariad am Addasiadau i'r Cymwysterau Craidd IGC a GChDDP

O ganlyniad i drafodaethau a gynhaliwyd gyda Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, City & Guilds a CBAC, mae'r addasiadau ar gyfer y **cymwysterau Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd** yn cael eu hymestyn tan 31 Hydref 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, dim ond nifer llai o asesiadau y bydd yn ofynnol i ddysgwyr eu cwblhau er mwyn cyflawni eu cymhwyster Craidd. Gall canolfannau hefyd barhau i gynnig asesiad o gwestiynau'r astudiaeth achos trwy sesiynau holi ac ateb llafar gyda'r dysgwr. Mae'r addasiadau hyn bellach ar gael i'r holl ddysgwyr sy'n disgwyl cwblhau eu dysgu a chyflawni eu cymhwyster Craidd erbyn 31 Hydref 2021, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymrestru ar ôl 1 Medi 2020.

Rhaid i ganolfannau barhau i gyflwyno'r holl gynnwys ar gyfer y cymwysterau hyn a sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n llawn cyn rhoi cynnig ar bob asesiad. Rydym wedi gweithio gyda'r cyrff dyfarnu, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i roi'r trefniadau hyn ar waith mewn ymateb i effaith barhaus y pandemig ar ddysgwyr yng Nghymru. Gobeithiwn y bydd yr estyniad hwn yn galluogi cymaint o ddysgwyr â phosibl i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu neu i gyflogaeth.

Gweler y cyswllt isod i Gyhoeddiad Cymwysterau Cymru

https://www.cymwysteraucymru.org/cymraeg/newyddion/diweddariad-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

Mae'r addasiadau hyn bellach ar gael i'r holl ddysgwyr sy'n disgwyl cwblhau eu dysgu a chyflawni eu cymhwyster Craidd erbyn 31 Hydref 2021, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymrestru ar ôl 1 Medi 2020.

• Rhaid i ymgeiswyr sy'n cwblhau'r Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Craidd neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd (Llwybr Unigol) gwblhau un asesiad mewnol yn llwyddiannus a'r prawf dewis lluosog

Neu dan amgylchiadau eithriadol yn unig, cwblhau dau asesiad mewnol yn llwyddiannus

• Rhaid i ymgeiswyr sy'n cwblhau'r Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd (Llwybr Cyfunol) gwblhau dau asesiad mewnol yn llwyddiannus (190 a 193) a'r prawf dewis lluosog

Neu dan amgylchiadau eithriadol yn unig, cwblhau tri asesiad mewnol yn llwyddiannus gan gynnwys 190 a 193.

Dylai canolfannau gynllunio eu hasesiadau er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gael i ddysgwyr ailsefyll y cymhwyster (os bydd angen) cyn 31 Hydref 2021.

Disgwylir i ganolfannau gadarnhau bod dysgwyr wedi cwblhau'r addysgu a'r dysgu ar draws cynnwys llawn y cymhwyster. Bwriad hyn yw diogelu dilysrwydd ac uniondeb y cymhwyster yn y tymor hir.

Bydd proses o Sicrhau Ansawdd Allanol (SSA) yn cael ei chynnal ar y ffordd mae'r ganolfan yn rheoli'r broses uchod.

Yn ystod y broses SAA, bydd canolfannau'n darparu'r canlynol:

1. Datganiad yn nodi bod cynnwys llawn y cymhwyster wedi'i gyflwyno i'r dysgwyr sy'n defnyddio'r addasiad
2. Tystiolaeth bod y dysgwyr wedi bodloni ystod dyddiadau gofynnol yr addasiad
3. Tystiolaeth o'r broses lle dangosodd y dysgwr ei fod yn barod i'w asesu ar gyfer y cymhwyster llawn.

Amgylchiadau Eithriadol

Amgylchiadau eithriadol - DIM OND rhywbeth sy'n berthnasol i sefyllfaoedd sy'n atal dysgwr rhag cwblhau asesiadau a achosir gan amhariad yn deillio o gyfyngiadau Covid-19 cenedlaethol a/neu lleol, er enghraifft:

1. Dydy'r dysgwr ddim yn gallu cael mynediad at safle'r darparwyr neu'r cyflogwyr
2. Dydy'r darparwr ddim yn gallu darparu amgylchedd addas at ddibenion asesu, yn ôl y manylion sy'n cael eu rhoi ym manyleb y cymhwyster.

Rheoli'r broses asesu

Disgwylir i ganolfannau gynnal yr asesu yn unol â'r gofynion a gyhoeddir ym manylebau'r cymwysterau ac yn y deunyddiau asesu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y bodlonir yr holl amodau dan reolaeth.

Lluniwyd asesiadau er mwyn gallu eu sefyll yn unigol neu i gyd ar yr un pryd.

Mae'r modelau cyflwyno ac amserlennu asesiadau'n fater sy'n hyblyg i ganolfannau. Lle nad yw'n bosibl cynnal asesiad yn unol â gofynion y fanyleb e.e. oherwydd bod canolfan wedi cau neu'r dysgwr yn methu â bod yn bresennol, dylai'r ganolfan ystyried ail-drefnu'r asesiad i'w gynnal ar ddyddiad diweddarach pan fydd modd dilyn yr amodau dan reolaeth.

Wrth benderfynu a ydyn nhw am oedi unrhyw asesiad, rhaid i ganolfannau ystyried y canlynol:

- yr effaith y gallai hyn ei chael ar ddilyniant gyrfa'r dysgwr a disgwyliadau'r cyflogwr, gan gofio na fydd efallai'n bosibl cael mynediad at weithleoedd cyflogwyr a chanolfannau
- pa mor briodol yw hyd yr oedi. Yn y rhan fwyaf o achosion disgwylir na fyddai asesiadau'n cael eu hoedi am fwy na 4 mis calendr (1 tymor).

Rhaid i'r dysgwr, yr aseswr, y SSAM a'r cyflogwr (os yn berthnasol) gytuno mai gwneud hyn fyddai orau. Rhaid i drywydd archwilio cadarn o'r broses o wneud penderfyniadau a chofnodion cysylltiedig y SSAM fod ar gael ar gyfer y gweithgarwch SAA.

Dan yr amgylchiadau canlynol, gall dysgwyr wneud cais i addasu asesiadau mewnol fel y gall y dysgwr a'r aseswr gwblhau'r asesiad mewnol ar lafar:

- mae'r ganolfan ar gau am fwy na phedwar mis
- mae angen i'r dysgwr gwblhau'r cymhwyster er mwyn symud ymlaen e.e. mewn rhaglen astudio, prentisiaeth neu mewn cyflogaeth
- ni all y dysgwr ymgymryd â'r asesiad yn unol â'r trefniadau arferol a amlinellir yn y fanyleb e.e. oherwydd hunanynysu.

Ym mhob achos lle mae angen i'r ganolfan ddefnyddio asesiad ar lafar rhaid iddi wneud cais i'r Corff Dyfarnu perthnasol er mwyn cael awdurdod i wneud hynny.
IGC Craidd: Cyflwynwch y ffurflen wedi'i llenwi i hclw.quality@cityandguilds.com
GChDDP Craidd: Cyflwynwch y ffurflen wedi'i llenwi i hscandcc@wjec.co.uk

Rhaid cyflwyno'r cais hwn o leiaf wythnos cyn cynnal yr asesiad.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried fesul achos gan sicrhau bod unrhyw benderfyniad yn un cyson a theg.

Amlinellir y broses ymgeisio isod:

- y ganolfan yn cyflwyno eu cais i'r Corff Dyfarnu, gan amlinellu'r rhesymau pam mae addasiad yn ddewis mwyaf priodol i'r dysgwr hwn. Rhaid i'r aseswr a'r SSAM sy'n gysylltiedig â'r dysgwr gytuno i'r cais.
- y corff dyfarnu'n adolygu'r cais ac yn rhoi penderfyniad i'r ganolfan o fewn 5 diwrnod gwaith
- os cymeradwyir hyn, gall y ganolfan fynd ymlaen i gynllunio a chynnal yr asesiad.

Rhaid cynnal asesiad ar lafar yn unol â'r trefniadau canlynol:

- ar ôl derbyn penderfyniad cadarnhaol bod y dysgwr yn barod i'w asesu, bydd yr aseswr yn rhannu'r astudiaeth achos â'r dysgwr gan ddefnyddio'r platfform diogel gan sicrhau bod y dysgwr yn deall na ddylai rannu'r astudiaeth achos ag unrhyw un arall
- ni ddylid rhannu'r papurau cwestiynau â'r dysgwyr ar unrhyw bwynt yn ystod y broses asesu.

Dim ond ar lafar y gellir rhannu cwestiynau'r asesiad â'r dysgwr a dim ond yn ystod y gweithgarwch asesu a gytunwyd y dylid gwneud hynny

- gall y ganolfan benderfynu ar lwyfan recordio fideo addas i'w ddefnyddio ar gyfer yr holi ac ateb ar lafar. Er mwyn cynnal cyfrinachedd y banc cwestiynau, rhaid i'r llwyfan a ddefnyddir fod yn ddibynadwy a diogel ac yn gallu cadw'r recordiad o'r asesiad mewnol yn saff (e.e. Teams, Zoom, Google Hangout)
- ni chaniateir i ddysgwyr recordio unrhyw agwedd ar y broses asesu.
- cyn diwrnod yr asesiad, rhaid i'r ganolfan roi prawf ar y cyfarpar i'w ddefnyddio gyda'r

dysgwr a'r aseswr. Rhaid recordio'r broses hon a'i darparu ar gyfer y Corff Dyfarnu os gwneir cais

- ar ddiwrnod yr asesiad, ond cyn cychwyn yr asesiad ei hun, rhaid i'r aseswr weithredu i sicrhau bod amgylchedd y dysgwr yn bodloni'r gofynion ar gyfer asesiad dan reolaeth ac awthentigedd, gan gynnwys dilysu hunaniaeth y dysgwr a chymryd camau i leihau'r perygl o lên-ladrad a chopio yn ystod y broses asesu. Rhaid recordio'r broses hon a'i darparu ar gyfer y Corff Dyfarnu os gwneir cais
- gall y dysgwr gyfeirio at 2 dudalen o nodiadau A4 yn ystod yr asesiad.

At ddibenion dilysu rhaid rhannu'r nodiadau â'r aseswr:

- Cyn diwrnod yr asesiad – rhaid i'r aseswr gadarnhau bod y nodiadau'n bodloni'r gofynion a amlinellwyd ym manyleb y cymhwyster
- Ar ddiwrnod yr asesiad – rhaid i'r aseswr sicrhau na chafodd y nodiadau eu newid
- Dylid annog y dysgwr i beidio â defnyddio nodiadau maint A4 tudalen ddwbl a'i annog i ddefnyddio 2 dudalen maint A4 ar wahân
- rhaid i'r aseswr barhau i fonitro'r amgylchedd yn ystod yr asesiad ac atal yr asesiad os bydd unrhyw gamymddwyn yn cael ei nodi. Rhaid recordio'r broses asesu ffurfiol yn llawn
- dylid hysbysu dysgwyr y gall yr aseswr weithredu i fonitro'r amgylchedd asesu'n barhaus drwy gydol y cyfnod asesu
- Rhaid i strategaeth SAM y ganolfan gynnwys gwybodaeth am sut bydd y ganolfan yn sicrhau ansawdd asesiad a gwblheir gan ddefnyddio unrhyw rai o'r addasiadau a ganiateir
- rhaid rhannu cofnodion recordiadau â'r Corff Dyfarnu os gwneir cais amdanyn nhw.

Gweithgarwch Sicrhau Ansawdd Allanol

Bydd y gweithgarwch sicrhau ansawdd allanol yn cadarnhau bod asesu a sicrhau ansawdd mewnol wedi'u cynnal yn unol â manyleb y cymhwyster ac/neu'r addasiad a amlinellwyd uchod. Lle defnyddiwyd yr addasiad, bydd y SSAA yn cadarnhau bod hyn wedi'i gymeradwyo gan y Corff Dyfarnu cyn cynnal yr asesiad.

Yn ogystal, bydd y gweithgarwch SAA yn gwneud y canlynol:

- sicrhau ansawdd a chadarnhau bod y dysgwyr a ardystir, gan ddefnyddio'r addasiad a amlinellwyd uchod, yn bodloni'r holl ddyddiadau ymrestru/cofrestru a chwblhau
- adolygu dysgwyr y cafodd eu hasesiad ei oedi er mwyn sicrhau mai dyma'r dewis mwyaf priodol i'r dysgwr hwnnw
- yn cynnwys samplu cofnodion yn ymwneud â'r asesiad a addaswyd.

Monitro unrhyw effaith barhaus sy'n deillio o gyfyngiadau Covid-19

Bydd y Consortiwm yn parhau i fonitro ac adolygu unrhyw gyfyngiadau parhaus o ran Covid-19 a'r potensial sydd ganddynt i amharu ar fynediad dysgwyr at asesiad.